Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*Y Pwyllgor Busnes*

Ionawr 2014

# Portffolios a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad

## Cyflwyniad

Ar 22 Mehefin 2011, derbyniodd y Cynulliad gynigion i sefydlu ei system bwyllgorau. Ar 12 Gorffennaf 2011, cyflwynodd y Pwyllgor Busnes adroddiad ynghylch 'Portffolios a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad'. Fersiwn mwy diweddar o'r adroddiad hwnnw yw hwn.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i bob maes y mae'r llywodraeth yn gyfrifol amdanynt fod yn destun proses graffu gan system bwyllgorau'r Cynulliad. Felly, dylai pob maes y mae Gweinidogion yn gyfrifol amdanynt fod yn destun proses graffu gan o leiaf un pwyllgor o'r Cynulliad. Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu i'r system fod yn gyfle i archwilio'n drawsbynciol holl feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth. Felly, er bod yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y pwyllgor sydd bennaf gyfrifol am bob maes y mae Gweinidogion yn gyfrifol amdanynt, mae pob pwyllgor yn rhydd i archwilio unrhyw fater o'u safbwynt penodol hwy.

Gellir crynhoi rolau craidd system bwyllgorau'r Cynulliad fel a ganlyn:

- craffu ar Filiau a chynigion deddfwriaethol eraill yn y Cynulliad, y DU a'r UE, cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad gydag argymhellion ynghylch sut i'w gwella, trafod gwelliannau i Filiau a gwneud y gwelliannau hynny;
- archwilio cyllid a pherfformiad rhannau perthnasol o Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus cysylltiedig ac eraill sy'n berthnasol i Gymru; ac
- archwilio'r broses o weithredu polisi, deddfwriaeth ac ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru ac adrodd arni, gan gynnwys nodi a chraffu ar feysydd polisi Llywodraeth Cymru, neu feysydd lle mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ddiffygiol, a gwneud cynigion ar sut i'w gwella.

## Adolygu cylch gwaith y Pwyllgorau

Yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2013, trafododd y Pwyllgor Busnes a ddylai cylchoedd gwaith y pwyllgorau gael eu diwygio mewn unrhyw fodd yng ngoleuni profiad. Ysgrifennodd y Llywydd at yr holl Gadeiryddion i ofyn eu barn ynghylch a fyddai'r pwyllgor yn gallu cyflawni ei rôl yn well pe byddai ei gylch gwaith yn cael ei newid mewn rhyw fodd.

Trafododd y Pwyllgor Busnes ymateb y Cadeiryddion yn y cyfarfod ar 10 Rhagfyr, a chytunodd i gynnig cylchoedd gwaith newydd, fel a ganlyn.  Y prif newidiadau ers y cylchoedd gwaith gwreiddiol yw:

- *Addysg Uwch* i ddod yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes yn ogystal â chylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.  Bydd teitl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn newid i “Plant, Pobl Ifanc ac Addysg”. Bydd y ddau Bwyllgor yn cydweithio i sicrhau eu bod yn craffu ar y maes polisi hwn yn effeithiol ac o safbwynt eu cylchoedd gwaith cyffredinol.  Yn ymarferol, gallai hyn olygu y bydd y Pwyllgor Plant, Phobl Ifanc ac Addysg yn canolbwyntio ar gyllid a llywodraethu, er enghraifft, tra byddai'r Pwyllgor Menter a Busnes yn canolbwyntio'n

bennaf ar gyfraniad Addysg Uwch i'r economi, yn enwedig o ran sgiliau ac eiddo deallusol;

- *Twristiaeth* i drosglwyddo o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Menter a Busnes.

Mae newidiadau eraill eisoes wedi eu cytuno i strwythur y pwyllgorau a'u cylchoedd gwaith ers 2011, gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, a diwygio cylchoedd gwaith y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y cylchoedd gwaith isod.

## Cylchoedd Gwaith y Pwyllgorau

### Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Rôl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yw trafod gwariant, gweinyddiaeth, polisi a'r materion deddfwriaethol hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith.  Mae'r prif feysydd cyfrifoldeb i Weinidogion sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Hawliau plant a phobl ifanc |
| Tlodi plant |
| Gofal cymdeithasol ar gyfer plant |
| Iechyd plant |
| Gwasanaethau mabwysiadu a maethu |
| Chwarae |
| Rhianta a theuluoedd |
| Gofal plant |
| Comisiynydd Plant Cymru |

| |
|---|
| Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd |
| Diogelu plant |
| Ysgolion, gan gynnwys safonau addysgu, y cwricwlwm, llywodraethu ac effeithiolrwydd |
| Addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog |
| Anghenion dysgu ychwanegol |
| Cynhwysiant mewn ysgolion |
| Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion |
| Addysg y blynyddoedd cynnar |
| Dysgu 14-19 |
| Addysg Uwch |
| Gwaith ieuenctid |
| Materion polisi perthnasol yr UE |

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Rôl y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yw trafod gwariant, gweinyddiaeth, polisi a'r materion deddfwriaethol hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith. Mae'r prif feysydd cyfrifoldeb i Weinidogion sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd |
| Adnoddau dŵr, rheoli dŵr ac ansawdd dŵr (gan gynnwys yr amgylchedd morol) |
| Bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a chadwraeth natur |
| Parciau Cenedlaethol |

| |
|---|
| Cefn gwlad a mannau agored |
| Coedwigaeth |
| Rheoli gwastraff |
| Polisi ynni a thlodi tanwydd (gan gynnwys dur a glo) |
| Iechyd a lles anifeiliaid |
| Cynllunio a rheoliadau adeiladu |
| Newid yn yr hinsawdd |
| Datblygu Cynaliadwy |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| Materion polisi perthnasol yr UE |

### Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rôl y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw trafod gwariant, gweinyddiaeth, polisi a'r materion deddfwriaethol hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith. Mae'r prif feysydd cyfrifoldeb i Weinidogion sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| Gofal cymdeithasol |
| Gwasanaethau iechyd meddwl |
| Iechyd y cyhoedd a diogelu iechyd |
| Gwella iechyd |
| Gofalwyr |
| Gweithgareddau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol |

| |
|---|
| Rheoleiddio gofal preswyl neu ofal yn y cartref i oedolion |
| Cymhorthion, addasiadau a chymorth yn y cartref |
| Byw'n annibynnol |
| Gofal yn y gymuned |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Diogelwch bwyd |
| Gwaith ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol |
| Gwasanaeth iechyd y Gwasanaeth Carchardai |
| Materion polisi perthnasol yr UE |

### Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Rôl y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yw trafod gwariant, gweinyddiaeth, polisi a'r materion deddfwriaethol hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith. Mae'r prif feysydd cyfrifoldeb i Weinidogion sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Tai, a gweithgareddau sy'n ymwneud â thai |
| Digartrefedd a chyngor ynghylch tai |
| Tai fforddiadwy (gan gynnwys ansawdd) |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Gwella gwasanaethau cyhoeddus |
| Cyfle cyfartal |
| Trais domestig |

| |
|---|
| Pobl sy'n ceisio lloches, mewnfudwyr a gweithwyr mudol |
| Cydlyniant cymunedol |
| Diogelwch cymunedol |
| Sipsiwn a theithwyr |
| Diwylliant |
| Y Gymraeg |
| Treftadaeth Cymru, ei hamgylchedd a'i hadeiladau hanesyddol |
| Amgueddfeydd, llyfrgelloedd cyhoeddus ac archifdai |
| Y celfyddydau |
| Chwaraeon, gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden egnïol |
| Y Gwasanaethau Tân ac Achub |
| Argyfyngau Sifil |
| Darlledu |
| Materion polisi perthnasol yr UE |

### Y Pwyllgor Menter a Busnes

Rôl y Pwyllgor Menter a Busnes yw trafod gwariant, gweinyddiaeth, polisi a'r materion deddfwriaethol hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith. Mae'r prif feysydd cyfrifoldeb i Weinidogion sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor wedi'u rhestru isod.

| |
|---|
| Busnes a menter, gan gynnwys mewnfuddsoddi/allforion |
| Ymchwil, datblygu ac arloesi |
| Addysg uwch |

| |
|---|
| Technoleg a Gwyddoniaeth |
| Adfywio strategol, ffisegol ac etifeddol |
| Cyflogaeth |
| Datblygu'r gweithlu |
| Sgiliau |
| Cymwysterau galwedigaethol |
| Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| Dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu seiliedig ar waith |
| Cyngor ynghylch cyflogadwyedd a gyrfaoedd |
| Diwygio lles |
| Seilwaith TGCh |
| Trafnidiaeth |
| Mentrau cymdeithasol |
| Twristiaeth |
| Cynigion Cronfeydd Strwythurol yr UE |
| Materion polisi perthnasol yr UE |

## Y Pwyllgor Cyllid

Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd drafod unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant allan o Gronfa Gyfunol Cymru.

O ran archwilio goblygiadau ariannol Biliau, mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn y dylai'r Pwyllgor fod yn ddethol, gan ganolbwyntio ar graffu ar Filiau o'r pwysigrwydd ariannol mwyaf, a chymryd trosolwg strategol o faterion ariannol sy'n ymwneud â deddfwriaeth.

Ers 15 Hydref 2013, mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn gyfrifol am y swyddogaethau yn Rheolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mewn perthynas â goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2. ac 18.3. Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Hefyd, caiff y Pwyllgor gynnal ei ymchwiliadau ei hun i feysydd eraill o wariant cyhoeddus.

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

Rôl y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yw cyflawni swyddogaethau penodol y pwyllgor cyfrifol yn Rheol Sefydlog 21 ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu ynglŷn â'r cymhwysedd hwnnw. Mae hyn yn cynnwys ystyried offerynnau statudol, offerynnau statudol drafft, unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a gyflwynir gerbron y Cynulliad, Biliau'r Cynulliad a'r Deyrnas Unedig yn ogystal â chylch gorchwyl ehangach i ystyried goblygiadau deddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer sybsidiaredd a materion cyfansoddiadol eraill. Yn benodol, mae gan y Pwyllgor drosolwg hefyd ar swyddogaethau Prif Weinidog Cymru fel y mae'r rheini'n ymwneud â materion cyfansoddiadol neu faterion cyffredinol y llywodraeth.

**Y Pwyllgor Deisebau**

Rôl y Pwyllgor Deisebau yw trafod yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Nodir y gofynion penodol yn Rheol Sefydlog 23.

**Y Pwyllgor Safonau**

Rôl y Pwyllgor Safonau yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.  Mae'r rhain yn cynnwys ymchwilio i gwynion a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau, ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad Aelodau, sefydlu'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion a'r trefniadau ar gyfer y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus eraill a bennir gan y Rheolau Sefydlog.

**Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**

Cylch gwaith y pwyllgor yw craffu ar y Prif Weinidog ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, gan gynnwys y meysydd polisi hynny y mae'r Prif Weinidog yn bennaf gyfrifol amdanynt.

**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i brif ffrydio materion polisi Ewropeaidd ar draws y pwyllgorau yn hytrach na chael un pwyllgor dynodedig  Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fydd yn gyfrifol am wiriadau i fonitro sybsidiaredd yn ogystal ag ystyried unrhyw fater deddfwriaethol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru neu ynglŷn â'r cymhwysedd hwnnw.

**Rôl Cadeiryddion y Pwyllgorau**

Mae cadeiryddion y pwyllgorau'n chwarae rhan hanfodol i wireddu amcanion strategol y Cynulliad. O gofio hynny, a'r ffaith fod pob Cadeirydd yn cael ei ethol gan y Cynulliad cyfan, rydym o'r farn ei bod yn briodol nodi'n fanylach

y rôl y mae’n rhaid i gadeiryddion y pwyllgorau ei chyflawni ar ran y Cynulliad.

Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau yw:

- pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i’w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;
- codi perthnasedd a dylanwad y pwyllgor i’r eithaf gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- gweithredu’n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy’n ennyn hyder y pwyllgor;
- ennyn hyder Aelodau, tystion a’r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli’r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso’r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy’n berthnasol i’r pwyllgor;
- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o’r pwyllgor a meithrin consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd;
- adeiladu’r amrywiaeth o ddiwylliant a sgiliau yn y pwyllgor sy’n angenrheidiol i’w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy’n gwneud gwaith craffu;
- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a’r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;
- rhoi hwb i gyflawni pob agwedd ar waith y pwyllgor gyda chyflymder ac ansawdd;
- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad; a

- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesedd yn ei waith er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd, ei ymgysylltiad cyhoeddus a'i effaith.